# Cyngor Cymuned Ganllwyd

**Rhagfyr 9fed 2020**

**Presennol**

Cyng. S.Roberts, G.Jones, C.Edwards, D.Morris.

**Ymddiheuriadau:**

Cyng C.Dixon, Gavin Jones G.Hughes.

**Cofnodion Tachwedd 2020.**

Cynnigodd S.Roberts fod y cofnodion yn gywir a eiliwyd gan Cyng G.Jones.

**Datgan diddordeb mewn unrhyw fater a drafodir yn ystod y cyfarfod.**

Dim.

**Materion yn codi.**

**Biniau halen**- mae'r biniau halen yn Maesgwm, Buarthdref a Maesgwm wedi eu llenwi gan Cyngor Gwynedd.

**Bont ar llwybr troed 11**- derbyniwyd e-bost gan Mr Gwyn Evans Cyngor Gwynedd yn cadarnhau fod y bont wedi ei golchi i ffwrdd gyda'r lli. Bydd Mr Evans yn trafod y mater gyda peirianwyr ac Adran Priffyrdd y Cyngor er mwyn datrys y broblem yma.

Teimlad Mr Evans oedd na fyddai'r gwaith yma yn cael blaenoriaeth gan yr Adran Priffyrdd.

Clerc i cysylltu a Mr Evans i ddatgan dymuniad y cyngor cymunedol i gael ei ddiweddaru pan fydd datblygiadau.

**Ffordd goedwigaeth ardal Goetre**- Mae CNC (Mr Dylan Williams) yn cadarnhau fod y ffordd wedi'i atgyweirio yn dilyn gwaith yn yr ardal.

**Ciosg BT a llochesi Bysiau lleol** - Mae Mr Evans wedi cysylltu â'r clerc i gadarnhau ei fod wedi cwblhau gwaith glanhau mewn perthynas â'r cyfleusterau uchod.

Hysbysodd Mr Evans y clerc fod angen paentio tu mewn i'r ciosg i gynnal ei gyflwr.

Ar ol trafodaeth cytunodd y cyngor y dylid cwblhau'r gwaith ar y ciosg.

Clerc i siarad â Mr Evans a gofyn iddo ddarparu amcangyfrif o'r gwaith

**Cynghorydd Sir.**

Ddim yn bresennol.

CNC – Mae'r Clerc wedi diolch yn ffurfiol i Mr Dylan Williams a'i gyd weithwyr am eu gwaith ynglyn a'r meusydd parcio lleol.

Mae y Clerc wedi danfon y gwybodaeth a dderbyniwyd gan y Cyng Dafydd Morris yn ymwneud a pobl yn aros dros nos i CNC.

**Materion Ariannol**

Cyllid misol Tachwedd 2020.

| | |
|---|---|
| Yn y Banc ar ddechrau'r Mis: | £8188.04 |
| Derbyniwyd: | |
| Dim | |
| | |
| Taliadau: | |
| Partneriaeth toiled | £250.00 |
| Awdit mewnol Cyng Gwynedd | £156.00 |
| Cyflog/Paye | £100.00 |
| | |
| Yn y banc diwedd mis | £7682.04 |

Mae aelodau'r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg arianol y cyngor.

Praesept 2021/22.

Trafodwyd y cynghorwyr manylion i ymwneud a Praesept 2021/22.

Defnyddwyd y gwybodaeth isod yn ystod y drafodaeth;

**<u>Cais praesept 2021-22.</u>**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Yn y banc 01/12/2020 | | £7682.04 | |
| Llai sieciau heb glirio | | £ 972.00 | |
| Cyfanswm | | £6710.04 | |
| Incwm arfaethedig am y flwyddyn: | | | |
| | Precept | | |
| | Ad-daliad cynnal llwybrau | £575 | |
| | Ad daliad TAW | £250 | |
| Cyfanswm (heb preasept) | | | £7535.04 |

| | | |
|---|---|---|
| Taliadau | Cynnal Llwybrau Cyhoeddus | £950 |
| | Biniau Halen | £700 |
| | Llogi'r Neuadd | £225 |
| | Cyflog Clerc | £1200 |
| | Ysiwriant | £450 |
| | Rhoddion | £600 |
| | Toiled Ganllwyd | £275 |
| | Archwilydd/cyfrifydd | £625 |
| | (Eitemau amrywiol) | £1200 |

| | |
|---|---|
| Cyfanswm | £6225.00 |
| Gweddill (heb praesept) | £1310.04 |

Penderfynwyd cynnig am praesept o £3000 am y flwyddyn ariannol yma.

Mae'r cyngor wedi derbyn llythyr gan lywodraeth Cymru yn nodi fod y swm priodol i wario ar weithgarwch nad oes ganddo bwerau penodol yn ei gylch o dan Adran 137(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ar gyfer 2021-22 ydi £8.41 y pen (bob etholwr)

**LLythyrau a Ebyst**

Dim

**Unrhyw Fater Arall**

Beudy Goetre, Ganllwyd – Mae’r Cyngor wedi derbyn gwybodaeth fod 2 Garafan Barhaol ar y safle sydd yn debyg yn erbyn rheolau’r Parc Cenedlaethol. Y Clerc i gysylltu a swyddogion y Parc.

=============

Yn dilyn gorchymyn gwreiddiol y Cyngor i’r Parc Cenedlaethol  (Rhagfyr 2019) i ymchwilio i waith sydd wedi cael ei wneud a’r dir yn ardal Dolfrwynnog mae’r cyngor wedi derbynnu rhagor o wybodaeth fod yna fwy o waith (heb awrdurdod) wedi eu cwblhau ar y safle.

Mae’r cyngor wedi derbyn lluniau o’r gwaith ar y safle.

Clerc i gysylltu a’r Parc (Sara D Thomas) i drafod y mater.